Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
Ebost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | GC/GPF 1415 |
| **Dyddiad** | 16 Ebrill 2015 |
| **Tudalennau** | 1 o 8 |

Cynghorydd John Pughe Roberts
Cadeirydd Y Pwyllgor Archwilio
Dafydd L Edwards
Pennaeth Cyllid
Pencadlys Cyngor Gwynedd
Stryd y Castell
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SE

Annwyl John a Dafydd

**Cyngor Gwynedd a Cronfa Bensiwn Gwynedd 2014/15**

**Ymholiadau archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli**

Fel y gwyddoch, mae'n ofynnol i mi gynnal fy archwiliad ariannol yn unol â'r gofynion a nodwyd mewn Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs). O dan y gofynion hyn, ysgrifennaf atoch i geisio'n ffurfiol eich ystyriaeth a'ch dealltwriaeth wedi'i dogfennu ynghylch nifer o faterion llywodraethu sy'n effeithio ar fy archwiliad o'ch datganiadau ariannol. Mae'r ystyriaethau hyn yn berthnasol i reolwyr 'y Cyngor a'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' (y Pwyllgor Archwilio).
Nodaf isod y meysydd llywodraethu yr wyf yn ceisio eich barn yn eu cylch.

1. Prosesau rheoli mewn perthynas â'r canlynol:

    - asesu'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan mewn ffordd berthnasol o ganlyniad i dwyll;
    - nodi ac ymateb i risgiau o dwyll yn y sefydliad;
    - hysbysu cyflogeion am safbwyntiau ynghylch arferion busnes ac ymddygiad moesegol; a
    - hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu am y prosesau ar gyfer nodi ac ymateb i dwyll.

2. Ymwybyddiaeth y rheolwyr o unrhyw achosion gwirioneddol neu honedig o dwyll.

3. Sut mae'r rheolwyr yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol.

4. P'un a oes unrhyw ymgyfreitha neu hawliadau a fyddai'n effeithio ar y datganiadau ariannol.

5. Prosesau'r rheolwyr ar gyfer nodi, awdurdodi, cymeradwyo, datgelu a rhoi cyfrif am drafodion a chydberthnasau â phartïon cysylltiedig.

Bydd y wybodaeth a roddwch yn ein helpi i ddeall y Cyngor (gan gynnwys y Cronfa Bensiwn) a'i prosesau busnes ac yn ein helpu i roi barn archwilio ar eich datganiadau ariannol ar gyfer 2014-15.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gwblhau'r tabl atodedig yn Atodiad 1, y dylech ei ystyried yn ffurfiol ar ran y rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'i ddychwelyd atom erbyn 30 Mehefin 2015. Yn y cyfamser, os bydd gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â mi ar 07969919986 neu e-bost: amanda.hughes@wao.gov.uk .

Yn gywir

Amanda Hughes
Rheolwr Archwilio